Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**
—
Welsh Parliament
**Finance Committee**

Bruce Crawford ASA

Cynullydd, Pwyllgor Cyllid a Chyfansoddiad

10 Mawrth 2021

Annwyl Bruce

**Amseriad Llywodraeth y DU a'r effaith ar gyllidebau gweinyddiaethau datganoledig**

Diolch am anfon copi o'ch llythyr at Brif Ysgrifennydd y Trysorlys i'r Pwyllgor Cyllid, mewn perthynas ag amseriad Cyllideb Llywodraeth y DU a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar weinyddiaethau datganoledig.

Er bod gan Bwyllgor Cyllid y Senedd a Llywodraeth Cymru gytundeb y bydd Cyllideb Cymru yn cael ei chyhoeddi cyn Cyllideb y DU, rydym o'r farn bod yr ychydig flynyddoedd diwethaf wedi bod yn rhai eithriadol. Yn ddiweddar, rydym wedi cyhoeddi ein adroddiad ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2021-22 lle rydym yn tynnu sylw at ein pryderon ynghylch amseriad digwyddiadau cyllidol y DU. Rydym wedi gwneud argymhellion dro ar ôl tro bod Llywodraeth Cymru yn parhau i bwyso ar Lywodraeth y DU am newidiadau clir a systematig i'r broses ariannu mewn perthynas â strwythur digwyddiadau cyllidol y DU. At hynny, rydym wedi ysgrifennu at Lywodraeth y DU i fynegi ein pryderon ynghylch amseriad cyhoeddiadau'r Gyllideb.

Yn ddiweddar, mae'r Pwyllgor wedi adrodd ar ein hymchwiliad i roi Deddf Cymru 2014 ar waith, a gweithrediad y Fframwaith Cyllidol. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn gryf o'r farn bod y dystiolaeth a roddwyd i'r ymchwiliad, ochr yn ochr â'r materion bywyd go iawn a brofwyd gyda'r trefniadau cyllido drwy gydol pandemig COVID-19 wedi dangos bod angen i'r mecanweithiau cyllido gael eu hadolygu ar frys gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Roedd pandemig COVID-19 yn ysgogiad i ystyried addasrwydd elfennau o'r system ariannol, fel fformiwla Barnett – sydd wedi bod yn destun galwadau am ddiwygio ers amser maith. Mae'r ymateb ariannol i'r pandemig wedi arwain at wario swm sylweddol o arian ar lefel y DU, sydd wedi codi materion pellach o ran sut mae'r Fframwaith Cyllidol yn gweithredu yng Nghymru.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
0300 200 6565

Rydym wedi ymestyn sawl gwahoddiad i'r Prif Ysgrifennydd i ymgysylltu â ni ar faterion cyllidol ond mae yna mharodrwydd ar ei ran i fod yn bresennol yn un o gyfarfodydd y Pwyllgor Cyllid. Rydym wedi tynnu sylw'r Prif Ysgrifennydd at y ffaith fod ei amharodrwydd i gymryd rhan mewn gwaith craffu ar bwerau – sy'n syrthio oddi fewn i gylch gwaith Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru fel ei gilydd – yn gosod cynsail ag iddo oblygiadau cyfansoddiadol ac sy'n dangos diystyrwch i'r Senedd. Rydym felly, yn cytuno'n llwyr â chi y dylai gweinyddiaethau datganoledig weithio gyda'i gilydd – ynghyd â Phwyllgorau perthnasol yn San Steffan – i bwysleisio i Drysorlys Ei Mawrhydi bod yna fuddiannau yn sgil gwell alinio rhwng y prosesau cyllideb datganoledig a digwyddiadau cyllidol y DU, ac rydym yn bwriadu gwneud argymhelliad i'r perwyl hynny yn ein hadroddiad etifeddiaeth, er mwyn i'n Pwyllgor olynol allu dwyn hynny yn ei flaen.

Rwy'n anfon copi or llythyr hwn at Gadeiryddion ein cyd-bwyllgorau yn Nhŷ'r Cyffredin, a Chynulliad Gogledd Iwerddon.

Yn gywir,



Llŷr Gruffydd AS

Cadeirydd